

Cwrs Uwch - Uned Gyfoes

Tŷ Am Ddim

Geirfa

cenhedlaeth (cenedlaethau)	<i>generation(s)</i>	argyfwng (argyfyngau)	<i>crisis (crises)/ emergency (emergencies)</i>
		blaendal(iadau)	<i>deposit(s)</i>
		caniatâd (caniatadau)	<i>permission(s)</i>
		colled(ion)	<i>loss(es)</i>
		cyflwr (cyflyrau)	<i>condition(s)</i>
		elw(au)	<i>profit(s)</i>
		gwelliant (gwelliannau)	<i>improvement(s)</i>
		ocsiwn (ocsiynau)	<i>auction(s)</i>
		pryder(on)	<i>concern(s)</i>
		ymgyngoriad(au)	<i>consultation(s)</i>
adnewyddu	<i>to renovate/to renew</i>	cychwynnol	<i>initial</i>
cyfrannu	<i>to contribute</i>	moethus	<i>luxurious</i>
cynilo	<i>to save (arian)</i>		
cynllunio	<i>to plan</i>		
etifeddu	<i>to inherit</i>		
trosi	<i>to convert</i>		
cryn sylw	<i>considerable attention</i>		

Cyflwyniad

Mae cyfres newydd o *Tŷ Am Ddim* yn cael ei darlledu ar S4C ar hyn o bryd. Mae'r uned hon yn rhoi cyflwyniad i'r rhaglen ac yn rhoi cyfle i chi drafod prynu, gwerthu ac adnewyddu tai.

Mae'r uned hefyd yn cynnwys erthygl am effaith tai gwyliau ar gymunedau mewn rhannau o Gymru a bydd cyfle i chi drafod y pwnc llosg hwnnw.



Fideos – Tŷ Am Ddim



1. Byddwch chi'n clywed y geiriau canlynol, sy'n gysylltiedig â phrynu a gwneud gwaith ar dŷ mewn clipiau fideos o'r rhaglen *Tŷ Am Ddim*. Mae'r diffiniadau ar y dde yn y drefn anghywir. Parwch y geiriau â'r diffiniadau cywir:

cynilo	gwneud gwaith i wella neu foderneiddio adeilad
blaendal	rhan newydd sy'n cael ei ychwanegu at adeilad
ocsiwn	pa mor dda ydy ansawdd rhywbeth
adnewyddu	cadw arian wrth gefn at bwrpas arbennig
elw neu golled	hawl swyddogol i adeiladu neu wneud newidiadau i adeilad
pris cychwynnol	arian sy'n cael ei dalu gyntaf wrth brynu neu archebu rhywbeth
cyflwr	y gwahaniaeth rhwng y pris dych chi'n ei dalu am rywbeth a'r arian dych chi'n ei gael wrth ei werthu
caniatâd cynllunio	Ile mae pobl yn cynnig symiau o arian mewn cystadleuaeth i brynu rhywbeth
estyniad	y pris cyntaf sy'n cael ei gynnig mewn ocsiwn

2. Mae Carys Davies, cyflwynydd *Tŷ Am Ddim* yn siarad â thafodiaith ddeheuol. Edrychwch ar y darn fideo cyntaf ac ysgrifennwch sut mae Carys yn dweud y pethau hyn:

methu prynu tŷ	
taflu arian i ffwrdd	
dydy o ddim yn hawdd	
beth tasen ni	
rhywun dych chi erioed wedi cyfarfod â nhw	
heddiw	

Sut dych chi, a phobl yn eich ardal chi, yn dweud y pethau uchod?

3. Ar ôl gweld y clip fideo eto, esboniwch yn eich geiriau eich hun beth sy'n digwydd mewn rhaglen yng nghyfres *Tŷ Am Ddim*.

4. Ar ôl gweld yr ail ddarn fideo, llenwch y tablau canlynol gyda gwybodaeth am y ddwy sy'n cymryd rhan yn y rhaglen hon a'r tai mae Carys yn ystyried eu prynu iddyn nhw:

Enw	Lisha	Shannon
Gwaith		
Pryderon		
Pa dŷ sy'n apelio a pham		

Tŷ	1	2	3
Lleoliad:			
Sawl llofft/ystafell wely:			
Pris cychwynnol:			
Manteision/ Anfanteision:			

Pa dŷ dych chi'n meddwl fasai'r un gorau i'w brynu?

5. Yn y trydydd darn fideo, byddwch chi'n gweld pa dŷ brynodd Carys ac ymateb Lisha a Shannon wrth iddyn nhw weld y tŷ am y tro cyntaf. Ysgrifennwch beth mae Lisha a Shannon eisiau eu cadw a beth maen nhw eisiau cael gwared arnyn nhw:

	Cadw	Cael gwared ar
Shannon		
Lisha		

6. Beth yw'r problemau a'r pethau cadarnhaol eraill mae'r ddwy yn eu gweld yn y tŷ?

	Hoffi/Cadarnhaol	Problemau/Negyddol
Shannon		
Lisha		

7. Mae Lisha'n dweud bod pethau "**ddim yn rhy ffôl**" pan mae hi'n meddwl eu bod yn iawn, neu ddim yn rhy wael. Sut mae pobl yn eich ardal chi yn dweud bod rhywbeth "**ddim yn rhy ffôl**"?

Beth fasech chi'n ddweud sydd **ddim yn rhy ffôl/ddim yn rhy wael** yn eich cartref chi?

8. Beth dych chi'n meddwl dylai Lisha a Shannon ei wneud i'r tŷ er mwyn cael elw?

Yn y gegin: _____

Yr ystafell fyw: _____

Yr ystafell molchi: _____

Y lloffttydd/ystafelloedd gwely: _____

Y tu allan: _____

Siaradwch

- Dych chi wedi prynu tŷ roedd angen llawer o waith arno erioed, neu wedi helpu i wneud gwaith ar dŷ rhywun arall? Siaradwch am eich profiad.
- Pa welliannau dych chi wedi'u gwneud i'ch cartref chi? Wnaethoch chi lawer o'r gwaith eich hunan, neu gael gweithwyr proffesiynol i mewn?
- Pa waith hoffech chi ei wneud yn eich cartref? Fasech chi'n hoffi/gallu gwneud y gwaith eich hunan?

9. Gwylwch y rhaglen gyfan ar S4C Clic i weld beth sy'n digwydd i Shannon a Lisa. Fel Gwaith Cartref, ysgrifennwch baragraff am y rhaglen. Beth yw'ch barn chi?

Argyfwng Tai

Mae'r erthygl sy'n dilyn yn sôn am gynnydd yn y nifer o ail gartrefi a thai gwyliau mewn rhannau o Gymru ac effaith hynny ar allu pobl leol i gael cartrefi yn eu cymunedau.

10. Mae'r erthygl yn dechrau trwy ddweud bod ail gartrefi wedi cael **cryn sylw** dros y ddwy flynedd diwethaf. Dych chi'n gallu meddwl am bethau eraill sydd wedi cael **cryn sylw** gan y wasg a'r cyfryngau yn ddiweddar?

11. Byddwch chi'n darllen yn yr erthygl bod teulu Catrin Roberts wedi **gosod eu gwreiddiau** yn ardal Morfa Nefyn. Cwblhewch yr isod i ddweud bod gwahanol bobl wedi **gosod eu gwreiddiau**:

Dw i wedi gosod _____

Rwy't ti wedi gosod _____

Mae e/o _____

Mae hi _____

'Dyn ni _____

Dych chi _____

Dych chi neu eich teulu wedi gosod eich gwreiddiau yn rhywle?

12. Darllenwch yr erthygl a dwedwch beth ydy arwyddocâd y rhifau canlynol:

18 milltir _____

60% _____

11% _____

30% _____

£1 miliwn _____

£11 miliwn _____

8 _____

Hawl i fyw adra?

Mae ail gartrefi yn un o'r pynciau llosg sydd wedi cael cryn sylw dros y ddwy flynedd diwethaf. Wrth i fwy o dai gael eu prynu fel ail gartrefi neu i gael eu rhentu fel tai gwyliau, mae pryderon bod prisiau tai yn codi allan o gyrraedd pobl leol mewn nifer o ardaloedd yng Nghymru ac mae llawer o bobl wedi codi llais a galw ar yr awdurdodau i wneud rhywbeth i daclo'r 'argyfwng tai'.

Cafodd ymgyrch Hawl i Fyw Adra ei sefydlu gan Gyngor Tref Nefyn ac mae'r grŵp wedi cynnal dwy orymdaith tua 18 milltir o Ben Llŷn i Gaernarfon i bwysu am bolisiau newydd ar frys er mwyn helpu pobl leol i gael cartrefi yn eu cymuned. Gyda ffigurau Cyngor Gwynedd yn dangos bod 60% o drigolion y sir wedi'u prasio allan o'r farchnad dai, a thua 11% o stoc dai'r sir yn ail gartrefi, mae ymgyrchwyr Hawl i Fyw Adra eisiau gweld polisiau newydd i reoli tai gwyliau.

Un o'r rhai sydd wedi bod yn codi ei llais ydy Catrin Roberts. Mae ei theulu hi wedi gosod eu gwreiddiau yn ardal Morfa Nefyn ers cenedlaethau ac mae hi'n teimlo'n ffodus iawn ei bod hi wedi etifeddu'r tŷ lle mae hi'n magu ei theulu. Ond mae hi'n poeni na fydd hi'n bosib i'w merch 16 oed, Nel, fyw yn y gymuned. Wrth gerdded o gwmpas y pentref ar brynawn oer yn y gaeaf, pwyntiodd Catrin at nifer o dai sydd bellach yn ail gartrefi neu'n dai haf.

"Mae 'na fflatiau gwyliau moethus ym mhen y lôn fan hyn, roedd y *penthouse* yn mynd am filiwn ac mae hynny 'di cael effaith ar brisiau tai eraill."

Mae hi'n ardal brysur iawn yn yr haf, ac mae hi'n anodd iawn dod o hyd i le i barcio yn y pentref. Ond darlun gwahanol iawn sydd yma yn y gaeaf, ac wrth iddi nosi, ychydig iawn o dai yn y ffyrdd agosaf at y traeth sydd â golau ynddyn nhw

Dydy Nel ddim yn hyderus o gwbl y bydd hi'n gallu bod yn rhan o ddyfodol y pentref.

"Mae o bron yn rhywbeth dan ni wedi'i dderbyn", meddai hi, "pan fydda i'n hŷn, mae'n annhebygol bydda i'n gallu byw yma oni bai bod rhywbeth yn digwydd."

Erbyn hyn mae 30% o stoc dai Morfa Nefyn yn dai gwyliau.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod ail gartrefi yn cyfrannu at greu argyfwng tai mewn rhannau o'r wlad. Maen nhw wedi cynnal un ymgyngoriad ar ddefnyddio'r system dreth i reoli'r farchnad

mewn ail gartrefi ac maen nhw wrthi'n cynnal ymgynghoriad arall nawr ar gynlluniau allai olygu bod rhaid cael caniatâd cynllunio gan gyngor lleol er mwyn trosi eiddo i fod yn dai gwyliau. Maen nhw'n arbrofi hefyd gyda chynlluniau eraill i helpu pobl i gael troed ar yr ysgol eiddo. Mae Dwyfor, sy'n cynnwys Pen Llŷn, wedi'i dewis fel ardal brawf. Bydd £1m ar gael i brynu ac adnewyddu cartrefi gwag yn yr ardal ac mae'r Llywodraeth wedi addo cyfanswm o £11m ar gyfer y rhannau o Gymru sydd wedi eu heffeithio waethaf gan yr argyfwng ail gartrefi.

Er bod rhai o gynlluniau'r Lywodraeth wedi cael eu croesawu, mae'r ymgyrchwyr yn dweud bod angen mwy o arian a bod angen gweithredu yn gyflymach. Yn ôl Rhys Tudur o Gyngor Tref Nefyn, dim ond rhyw wyth tŷ fydd yn gallu cael eu prynu gyda'r £1m yn yr ardal beilot ac "yn sicr, dydy hynny ddim yn mynd i daclo'r argyfwng tai".

Darllenwch yr erthygl eto cyn trafod yr atebion i'r cwestiynau isod:

13. Sut cafodd Catrin Roberts dŷ ym Morfa Nefyn?

14. Sut mae Morfa Nefyn yn wahanol yn yr haf a'r gaeaf?

15. Beth ydy testun dau ymgynghoriad Llywodraeth Cymru?

- a. _____
- b. _____

16. Pa ddau beth mae Rhys Tudur eisiau i Lywodraeth Cymru eu gwneud?

- a. _____
- b. _____

Siaradwch

- Beth sy'n digwydd yn y farchnad dai yn eich ardal chi ar hyn o bryd?
- Siaradwch am eich profiad chi o brynu neu rentu eich cartref cyntaf.